Adroddiad IWA
Chwefror 2022

MAKING WALES BETTER
GWNEUD CYMRU WELL

# Ein Tir:
# Cymunedau a Defnyddio Tir



## Yr Awdur

Harry Thompson yw Arweinydd Polisi Economaidd IWA a nod ei waith yw cyfrannu at genhadaeth IWA o economi lwyddiannus, lân, gwyrdd, a theg i Gymru. Cyn ymuno ag IWA bu'n gweithio mewn amrywiaeth o swyddi mewn gwleidyddiaeth a pholisi ar lefel awdurdodau, San Steffan a'r Senedd.

## Amdanom IWA

Rydym yn felin drafod ac yn elusen, yn annibynnol ar lywodraeth a phleidiau gwleidyddol. Drwy ddod ag arbenigwyr ynghyd o bob cefndir, ein canfyddiad yw syniadau uchelgeisiol a deallus sy'n sicrhau ymrwymiadau gwleidyddol i wella ein democratiaeth, gwasanaethau cyhoeddus ac economi.

Rydym yn darparu llwyfannau ar gyfer trafod, cyfle i bobl fynegi eu barn ac ymchwil i osod agenda. Cawn ein hariannu gan ein haelodau, incwm on digwyddiadau ân sesiynau hyfforddiant, a'n cefnogi gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrff ariannu eraill. Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw balch.

Ein gweledigaeth ni yw creu Cymru ble gall pawb ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am IWA, ein gwaith polisi a sut i ymuno â ni, naill ai fel unigolyn neu gefnogwr sefydliadol, cysylltwch â:

IWA – Sefydliad Materion Cymreig, 56 James Street, Bae Caerdydd, CF10 5EZ
ffon: 029 2048 4387
email: info@iwa.org.uk
www.iwa.wales

Mae IWA yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr: 1078435
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr: 02151006

## Ariannu

Rydym yn ddiolchgar i Friends Provident Charitable Foundation ac Esmée Fairbairn Foundation am gefnogi'r prosiect hwn.

# Cyflwyniad

Tir yw un o'r adnoddau mwyaf gwerthfawr sydd gan unrhyw wlad. Yn ffigurol ac yn llythrennol, hwn yn sail pob gwlad. Mae'r ffordd rydym yn dewis defnyddio'n tir - boed ar gyfer diwydiant, amaeth, tai, yr amgylchedd naturiol neu nifer o ddewisiadau eraill - yn cael effaith sylfaenol ar strwythur ein cymdeithas. Mae'r ddadl ar gyfer pwy mae ein tir, pwy biau ein tir ac at ba ddiben yn ddadl ehangach na'r tir ei hun. Mae pwy biau'r tir ac sy'n gwneud penderfyniadau sut rydyn yn ei ddefnyddio, felly, yn gwestiwn polisi allweddol.

Mae'r ddadl hon wedi dod yn arbennig o berthnasol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae tirwedd polisi Cymru ar hyn 0 bryd mewn cyfnod cythryblus oherwydd stormydd y newid yn yr hinsawdd, y pandemig Covid-19 a phenderfyniad y DG i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae goblygiadau'r materion sylfaenol hyn yn ein dyddiau ni wedi eu teimlo yn ein bywyd bob dydd a'r effeithiau'n rhedeg drwy bron pob maes polisi.

Mae hyn yn arbennig o wir o ran tir. Oherwydd effeithiau deuol y newid yn yr hinsawdd a Brexit mae hyn wedi dod â system newydd o ariannu amaethyddiaeth i flaen y rhestr: un sy'n seiliedig ar allbwn amgylcheddol, wrth inni adael Polisi is Amaethyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd o daliadau'n seiliedig ar faint o dir sydd mewn perchnogaeth. Mae arwyddion cynnar yn rhybuddio am oblygiadau anfwriadol systemau tebyg, a'r undebau ffermwyr ac eraill yn rhybuddio[1] am gynnydd mewn ceisiadau o'r tu allan i Gymru i'r rhaglen Creu Coedir Glastir, ac yn cyhuddo bod 'cwmnïau enfawr, di-wyneb' yn 'dinistrio cymunedau'[2] mewn ardaloedd gwledig.

Hefyd mae'r pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo cysylltiedig wedi tynnu sylw at fynediad i dir. Gwelodd ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, gydag ariannu gan Lywodraeth Cymru, fod cael mynediad i erddi a mannau gwyrdd yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl yn ystod y pandemig[3]. Dywedodd yr Athro Wouter Poortinga fod parciau cyhoeddus a mannau gwyrdd eraill wedi bod yn achubiaeth i nifer yn ystod y pandemig Covid-19.

Fodd bynnag, er gwaethaf bodolaeth fythol y polisi perchnogi tir a'r cyfuniad hwn o ffactorau'n ei wneud yn gynyddol berthnasol yn ein bywyd yn fwy nag erioed o'r blaen, mae polisi defnyddio tir yng Nghymru yn dal i gael ei archwilio mewn unedau yn hytrach nag yn ei gyfanrwydd. Drwy siarad â sefydliadau eraill gwelsom fod diddordeb eang mewn tir. Diddordeb rhai yw agor tir ar gyfer tai, a diddordeb eraill yn y tir yw prosiectau ynni adnewyddadwy.

Yr hyn sy'n llawer llai amlwg yw trafodaeth genedlaethol, strategol am dir Cymru a'r ffordd rydym yn ei ddefnyddio. Mae Cymru'n defnyddio 88% o'i thir ar gyfer amaethyddiaeth[4] sy'n darparu tua 4% o gyflogaeth yng Nghymru a llai nag 1% o GVA Cymru. Mewn rhai ffyrdd nid yw'n syndod fod ein buddsoddiad cenedlaethol seismig mewn tir ar gyfer amaethyddiaeth yn rhoi cyn lleied o elw uniongyrchol. Mae 80% o dir Cymru'n un o'r Ardaloedd Llai Ffafriol (ALlFf) ar gyfer amaeth. Mae

1 Farming UK - Concern as Welsh Farms Bought Up for Carbon Offset Projects
2 BBC News - Tree-planting: Why are large investment firms buying Welsh farms?
3 Cardiff University - Gardens and green space linked to better mental health during pandemic, study shows
4 Welsh Government - Agriculture in Wales

ein gwlad o arfordiroedd ac ucheldir mewnol yn golygu bod rhaid cynnal amaethu ar lethrau a mannau lle mae llawer o law. Nid yw'n syndod, felly, fod gan Gymru un o'r lefelau allbwn gros isaf yn y DG, sef £858 yr hectar. Mae hyn yn cymharu'n wael â Dwyrain Lloegr sydd ar ben y rhestr gyda £3,190 yr hectar.

Mae'r etifeddiaeth ar ôl chwalfa'r diwydiant glo a'r creithiau parhaus mae hynny wedi eu gadael ar ein hen gymunedau diwydiannol yn golygu ein bod i gyd yn gwybod yn rhy dda sut y gall diwydiant gynnal cymuned. Amaethu yw sail cymunedau gwledig, gan gynnwys nifer o gymunedau Cymraeg eu hiaith. Gall pwysau ar y diwydiant amaethu, o'r herwydd, olygu pwysau ar rannau helaeth o'r diwylliant Cymraeg: mae 43% o weithwyr amaeth, coedwigaeth a physgota yn siaradwyr Cymraeg – y gyfran uchaf mewn unrhyw sector o bell ffordd[5]. Yr ail uchaf, sef 27%, yw addysg, a'r cyfartaledd ar gyfer pob sector yw 17%, a hynny heb sôn am y ffaith fod amaeth yng Nghymru yn elfen allweddol mewn diwydiant bwyd a diod ffyniannus yng Nghymru[6].

Rydym, felly, yn wynebu sefyllfa lle mae defnyddio tir yn ffactor hollbwysig wrth benderfynu strwythur ein cymdeithas, a sefyllfa lle mae Cymru wedi etifeddu buddsoddiad mawr o'r adnodd hwn mewn sector nad yw mewn sefyllfa dda yn strategol i elwa ohono. Fodd bynnag, mae'r sector hwn hefyd yn cynnal cadwyni a diwydiant cyflenwi, yn ogystal â bod yn sail economaidd i lawer o fywyd a diwylliant Cymru.

Am y rheswm hwn mae IWA wedi ymgymryd â rhoi cychwyn ar y drafodaeth genedlaethol hon am ein tir. Rydym wedi ymgynghori â chyrdd sydd â diddordeb ledled Cymru ac wedi gwneud ymchwil desg i bolisi arfer gorau yng nghyd-destun yn y DG. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau o gwmpas y bwrdd gyda grwpiau cymunedol sydd wedi ceisio – yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus – i gael tir yng Nghymru, a chyda ffermwyr o bob rhan o Gymru sydd mor bwysig i gynnal y cyflenwad bwyd a'r diwylliant cefn gwlad yng Nghymru.

Mae ein hadroddiad yn adrodd stori am Gymru sydd ymhell ar ôl wrth roi i gymunedau yr hawl i gael tir ac asedau eraill, gyda phroses anodd a thorcalonnus sydd fel pebae bron wedi ei llunio i gadw asedau allan o reolaeth cymunedau, a hynny ar adeg wrth inni ddod allan o gyfnod o lymder sydd wedi cyflymu gwerthu tir ac asedau cymunedol. Rydym yn cyd-fynd â barn ffermwyr sydd nid yn unig yn cael eu diffinio yn ôl eu gwaith ond sydd hefyd yn ddinasyddion gweithgar o gefn gwlad Cymru, yn cynnal nid yn unig economi'r ardaloedd hyn ond hefyd lawer iawn o'u bywyd diwylliannol. Daw'r adroddiad i ben gyda argymhellion i lunwyr polisi y credwn a fydd yn galluogi cymunedau i gael mynegi eu barn yn glir am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal, gan gynnal busnesau a gwasanaethau ffyniannus a llwyddiannus a bod yn dynfaen newydd i gymunedau sy'n aml mewn cyni. Drwy ymgynghori â'r rheini 'yn y maes' yn y maes ffermio, rydym hefyd yn hyderus y bydd yr argymhellion hyn yn gweithio gydag asgwrn cefn y Gymru wledig yn hytrach nag yn ei erbyn, gan gryfhau'r cymunedau mae gan y sector amaethyddol berthynas mor symbiotig â nhw.

5 Welsh Government - Agriculture in Wales

6 Welsh Government - £7.473 billion reasons Wales' food and drink industry must continue to thrive post-Brexit

# Cyd-destun Polisi

**Llun:** Polly Thomas.



# Cyd-destun Polisi

## Y Cyd-destun Polisi yn yr Alban

Er bod rhywfaint o ganolbwyntio polisi wedi digwydd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr ar rymuso cymunedau a defnyddio tir , yn y cyfnod datganoledig yr Alban sydd wedi archwilio perchnogaeth tir a hawliau cymunedol yn fwyaf trwyadl. Mae hyn wedi digwydd dan weinyddiaethau sy'n peryglu polisi Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Blaid Werdd. Mae gan yr Alban ei hanes unigryw ei hun o berchnogaeth tir, gydag etifeddiaeth o stadau mawr preifat a hanes o brynu tir gan y gymuned sy'n mynd yn ôl cyn y cyfnod datganoli. Felly, gellir gweld perchnogi tir yn yr Alban yn rhannol fel estyniad o'r amgylchiad penodol hwnnw.

Fodd bynnag, mae datganoli wedi caniatáu i ddiwygio perchnogaeth tir yn yr Alban fod yn nodwedd gyson yn llywodraethiant yr Alban. Cafodd Cronfa Dir yr Alban[7] ei sefydlu yn 2001 gyda swm o £10m[8]. Mae'r Gronfa wedi ehangu o ran ei chwmpas ac erbyn heddiw mae'n bodoli i gefnogi cymunedau trefol a gwledig i fod yn fwy grymus a chynaliadwy drwy berchnogi a rheoli tir ac asedau tir, gyda grantiau ar gael o £5000 o £1m. Mae Llywodraeth yr Alban ar hyn o bryd yn darparu £10m y flwyddyn ar gyfer y gronfa, sy'n cael ei threfnu mewn partneriaeth gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Menter yr Ynysoedd a'r Ucheldir. Croesawir ceisiadau gan amrywiaeth eang o gyrff sy'n cynrychioli cymunedau, sefydliadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol neu gynghorau cymuned[9]. Mae'r Rhaglen Rhannu Polisi a gytunwyd gan Lywodraeth yr Alban a Phlaid Werdd yr Alban ym mis Medi 2021 wedi ymrwymo i ddyblu'r ariannu hwn o £10m i £20m y flwyddyn erbyn diwedd y sesiwn seneddol gyfredol yn 2026[10].

Cafodd y gefnogaeth hon i berchnogi tir ac asedau tir ei hatgyfnerthu gan Ddeddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003. Roedd tair rhan i'r Ddeddf gychwynnol hon: Hawliau Mynediad, Hawl Cymunedau Crofftio i Brynu, a'r Hawl Gymunedol i Brynu[11]. Yr eitem olaf hon sydd o ddiddordeb arbennig o ran hawliau cymunedol a thir yng Nghymru.

Roedd yr Hawl Gymunedol i Brynu[12] yn ei hanfod yn creu hawl gyntaf i wrthod i grŵp cymunedol brynu tir gwledig pan fwriedid ei werthu neu ei drosglwyddo. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol creu Cofrestr Diddordebau Cymunedol mewn Tir, gan ganiatáu i gyrff cymunedol wneud cais am gofrestru diddordeb mewn tir gwledig. Roedd hynny, o gael ei gymeradwyo gan Weinidogion yr Alban, yn rhoi i gyrff cymunedol yr hawl gyntaf i wrthod prynu tir pan fwriedid ei brynu neu ei werthu. Pan fyddai'r sefyllfa hon yn codi, roedd

7 TNL Community Fund - Scottish Land Fund

8 Community Land Scotland - a new Scottish Land Fund

9 TNL Community Fund - Scottish Land Fund

10 Scottish Government - Scottish Government and Scottish Green Party - Shared Policy Programme

11 Land Reform (Scotland) Act 2003 - Explanatory Notes

12 Land Reform (Scotland) Act 2003 - Part 2, Community Right to Buy

y Ddeddf yn ei gwnned yn ofynnol cael cymeradwyaeth y gymuned leol drwy bleidlais gymunedol. Cymerir bod cymeradwyaeth gymunedol yn cael ei rhoi os bydd mwyafrif o aelodau'r gymuned yn pleidleisio o blaid y cynnig - cyn belled â bod o leiaf hanner y rhai sy'n gymwys i bleidleisio yn gwneud hynny, neu lle bydd llai na hanner yn pleidleisio bod nifer digonol i gyfiawnhau prynu gan y gymuned. Roedd yn rhaid bodloni'r amodau hyn cyn i Weinidogion yr Alban roi eu caniatâd , a'r Gweinidogion yn gorfod rhoi gwybod i'r corff cymunedol a pherchennog y tir cyn pen 21 diwrnod ar ôl y bleidlais a fyddant wedi penderfynu rhoi eu caniatâd.

Yn 2012 sefydlodd Llywodraeth yr Alban Grŵp Adolygu Diwygio Tir[13] gyda'r dasg o alluogi mwy o bobl yr Alban wledig a threfol i gael rhan mewn defnyddio tir, helpu gyda phrynu a rheoli tir ac asedau tir gan gymunedau er mwyn eu cryfhau, ac i gynnal perthynas newydd rhwng tir, polisi, economi a'r amgylchedd yn yr Alban. Roedd adroddiad eang y Grŵp yn gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylid ymestyn y Ddeddf Diwygio Tir 2003 i am brynu tir cyhoeddus ac i ofyn i Weinidogion yr Alban weithredu Gorchymyn Prynu Gorfodol.

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban hefyd darged i roi miliwn o erwau o dir yn nwylo cymunedau erbyn 2020[14], cyn pasio Deddf Grymuso Cymunedau (yr Alban) 2015. Ymhlith camau eraill, roedd y Ddeddf yn ymateb i argymhellion y Grŵp Adolygu Diwygio Tir drwy ehangu'r Hawl i Brynu Cymunedol a chyflwyno Ceisiadau Trosglwyddo Asedau ar gyfer tir sydd mewn dwylo cyhoeddus. Roedd hefyd yn creu gofyniad i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cofrestr o'u heiddo er lles pawb. Eiddo er lles pawb yw eiddo mae awdurdodau lleol yn berchen arno er lles y trigolion yn eu hardal. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys a hysbysu cynghorau cymuned a chyrff cymunedol yn yr ardal wrth sefydlu'r gofrestr arfaethedig. Fel gyda sefydlu'r gofrestr lles pawb, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gyhoeddi cynigion a rhoi gwybod i gynghorau cymuned a chyrff cymunedol cyn cael gwared ag unrhyw eiddo er lles pawb neu newid ei ddefnydd.[15]

Y darn diweddaraf o ddeddfwriaeth i'w basio yn yr Alban ynglŷn â chymunedau a thir yw Deddf Diwygio Tir yr Alban 2016[16]. Mae'r Ddeddf hon yn atgyfnerthu diwygio tir fel rhan gyson o lywodraethiant yr Alban drwy sefydlu dyletswydd i Weinidogion yr Alban gynhyrchu datganiad Hawliau a Chyfrifoldebau Tir cyn pen 12 mis, ac i'r datganiad hwnnw gael ei adolygu cyn pen pum mlynedd ar ôl ei gyhoeddi. Roedd hefyd yn sefydlu Comisiwn Tir yr Alban[17], sy'n cael ei orfodi i gyhoeddi cynlluniau strategol i'w cymeradwyo gan Senedd yr Alban cyn ei gyhoeddi a'i osod gerbron Senedd yr Alban. Mae Comisiwn Tir yr Alban ar hyn o bryd yn ei ddisgrifio'i hun fel corff sy'n gyrru rhaglen o ddiwygio tir yn cwmpasu tir trefol a gwledig, i greu gwlad lle mae tir yn cael ei berchnogi a'i ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n deg, yn gyfrifol ac yn gynhyrchiol[18].

13 Scottish Government - Land Reform Review Group Final Report

14 Scottish Government - One million acres by 2020: strategy report and recommendations

15 Community Empowerment (Scotland) Act 2015 Explanatory Notes - Part 8, Common Good Property

16 Land Reform (Scotland) Act 2016

17 Land Reform (Scotland) Act 2016 Explanatory Notes - Part 2 Chapter 1, The Commission

18 Scottish Land Commission

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyfuno pum rhaglen flaenorol (y Gronfa Pobl a Chymunedau, y Rhaglen Atgyfnerthu Cymunedau, y gronfa Dewisiadau Cymunedol, y Fenter Gwneud Lleoedd a'r Gronfa Trawsnewid Bwyd Teg) yn Gronfa Buddsoddi mewn Cymunedau sydd, gyda'r Gronfa Cymunedau Uchelgeisiol, yn creu'r Rhaglen Grymuso Cymunedau[19]. Nod y Gronfa Buddsoddi mewn Cymunedau[20] yw galluogi cymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais ar eu telerau eu hunain, ac yn eu tro yn cefnogi twf cynhwysol. Targed y Gronfa Cymunedau Uchelgeisiol[21] gwerth £24.8m yw cefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig a bregus yn yr Alban i ddatblygu a darparu atebion tymor hir sy'n delio â blaenoriaeth ac angen yn lleol, yn cynyddu cynhwysiant gweithredol, ac yn adeiladu ar asedau cymunedau lleol i leihau tlodi a galluogi twf cynhwysol.

Mae Cronfa Tai Gwledig Llywodraeth yr Alban[22] hefyd yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau cymunedol.

Mae'r mudiad i ddiwygio tir a grymuso cymunedau yn yr Alban yn dal yn ganolbwynt i Lywodraeth yr Alban. Yn ogystal â'r addewid blaenorol i ddyblu Cronfa Tir yr Alban, y Gronfa Rhannu Polisi gan Lywodraeth yr Alban a Phlaid Werdd yr Alban hefyd yn dweud bod cynnydd parhaus i ddiwygio tir yn hanfodol, ac y dylai swm sylweddol uchel o dir fod yn eiddo yn yr Alban i gymunedau sy'n byw ac yn gweithio yno. Roedd hefyd yn ymrwymo i Fesur newydd Diwygio Tir erbyn diwedd 2023, gyda'r nod o fynd i'r afael â graddfa a maint perchnogaeth tir yn ardaloedd trefol a gwledig yr Alban.[23]

## Y Cyd-destun Polisi yn Lloegr

Mae Llywodraeth y DG hefyd wedi cymryd rhai camau ym maes grymuso cymunedau. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ddeddfwriaeth bell gyrhaeddol sy'n gymwys yn bennaf yn Lloegr. Roedd y Ddeddf hon yn mynd drwy Senedd y DG pan oedd Cymru'n cael pwerau i wneud deddfau sylfaenol ar 5 Mai 2011[24]. Mae Deddf Lleoliaeth yn cynnwys amrywiaeth o fesurau sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn. Mae Rhan 5, Pennod 3 o'r Ddeddf Lleoliaeth yn cyfeirio at Asedau o Werth Cymunedol. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i gynnal rhestr o asedau sydd o werth i'r gymuned, er bod Gweinidogion Cymru wedi dewis peidio â gweithredu hyn yng Nghymru, fel yr esbonnir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae'n dweud y gall asedau gael eu cynnwys ar y rhestr dim ond drwy ymateb i enwebiad gan gymuned neu gan yr awdurdod priodol. Caiff enwebiad gan gymuned ei ddiffinio[25] fel y rheiny a enwebir gan gyngor cymuned (Cymru) neu gyngor plwyf (Lloegr) neu gorff gwirfoddol neu gymunedol sydd â chysylltiad lleol. Mae'n ofynnol awdurdodau lleol ystyried enwebiadau cymunedol, ac i restru'r tir os yw o werth i'r gymuned ac o fewn ardal

19 Scottish Government - Empowering Communities Programme
20 Scottish Government - Investing in Communities Fund
21 Scottish Government - Aspiring Communities Fund
22 Scottish Government - Rural and Islands Housing Funds
23 Scottish Government - Scottish Government and Scottish Green Party - Shared Policy Programme
24 Localism Act 2011 Explanatory Notes - Territorial Application, Wales
25 Localism Act 2011 Explanatory Notes - Part 5, Chapter 3, Land of Community Value

yr awdurdod. Mae hefyd yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu rhesymau ysgrifenedig i'r gymuned os na chaiff y tir ei restru. Wedyn mae moratoriwm gorfodol ar waredu asedau sydd wedi'u rhestru, a'r perchennog yn cael ei atal rhag gwaredu'r tir nes iddo roi gwybod i'r awdurdod lleol am ei fwriad.

Wedyn bydd moratoriwm dros dro o chwe wythnos sy'n gymwys ym mhob achos, ac yn caniatáu i grwpiau sydd â diddordeb cymunedol wneud cais ysgrifenedig i gael ei drin fel cynigydd posibl. Os na fydd neb yn gwneud hynny yn y cyfnod hwn, mae perchennog yn rhydd i werthu'r ased ar ddiwedd y chwe wythnos. Os na fydd grŵp sydd â diddordeb cymunedol yn gwneud cais, yna bydd y perchennog yn rhydd i werthu'r ased ar ddiwedd y chwe wythnos. Os bydd grŵp sydd â diddordeb cymunedol yn gwneud cais yn ystod y cyfnod interim hwn, yna bydd moratoriwm llawn o chwe mis yn cychwyn. Ar ôl i'r moratoriwm ddod i ben, bydd y perchennog yn rhydd i werthu i bwy bynnag a fyn ac am ba bris bynnag a fyn. Mae'r rhan hon o'r Ddeddf, ynghyd â'r Rheoliadau Asedau o Werth Cymunedol (Lloegr) 2012, yn creu'r hyn a elwir yn Hawl Cymunedol i Gynnig[26].

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr hyn a elwir yn Hawl Cymunedol i Herio[27], sy'n caniatáu i gymunedau gynnig bod yn gyfrifol am redeg gwasanaethau lleol, a'r Hawl Cymunedol i Adeiladu[28], sy'n caniatáu i gyrff cymunedol gyflwyno datblygiad ar raddfa fach heb orfod cael caniatâd cynllunio. Gall hyn gael ei ddefnyddio, er enghraifft, ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fach. Mae Hawl Gymunedol i Adennill Tir[29] hefyd yn caniatáu i gymunedau wneud cais i gymryd tir drosodd y credant nad yw'n cael ei ddefnyddio neu'n wag drwy Gais Cyhoeddus i Waredu Gorchymyn[30].

Mae Cronfa Tai Cymunedol Llywodraeth y DU[31] hefyd yn darparu cyllid ar gyfer y sector tai a arweinir gan y gymuned yn Lloegr.

## Y Cyd-destun Polisi yng Nghymru

I'r gwrthwyneb, ac er gwaethaf cysyniadau mewn cylchoedd gwleidyddol yng Nghymru am Gymru fel gwlad o 'gymunedolaeth', Cymru sydd â'r lleiaf o hawliau statudol ym Mhrydain Fawr o bell ffordd o ran tir.

Mae yna ychydig fecanweithiau cyfyngedig ar gyfer rheolaeth gan gymunedau. Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) yn caniatáu i gymunedau gymryd perchnogaeth a rheolaeth dros gyfleusterau pan fydd awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill yn penderfynu caniatáu. Caiff y broses ei gyrru gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn

26 UK Government - Community Right to Bid
27 UK Government - Community Right to Challenge
28 Planning Portal - Community Right to Build
29 UK Government - Community Right to Reclaim Land
30 UK Government - Public Request to Order Disposal
31 UK Government - Community Housing Fund
32 Welsh Government - Community Asset Transfer Guidance
33 Welsh Government / Government Social Research - Community asset transfer: research with the third sector, local authorities and community and town councils

hytrach na chan gymunedau. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ei hun[32] yn dweud y gall y gymuned berchnogi a rheoli cyfleusterau a allai fel arall gael eu cau os yw'r awdurdod lleol neu Awdurdodau Cyhoeddus eraill yn methu â'u hariannu mwyach. Yn ogystal â hyn, mae gwaith ymchwil gan Government Social Research[33], wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, yn dweud mai'r rheswm mwyaf cyffredin gan awdurdodau lleol dros drosglwyddo asedau oedd yr angen i leihau eu costau oherwydd polisïau cyni parhaus. Roedd yr ymchwil hefyd yn dangos mai pedwar yn unig o'r 15 awdurdod lleol yn yr arolwg a ddywedodd fod ganddynt swyddog CAT, a bod trosglwyddo prydlesi lawer yn fwy cyffredin na throsglwyddo rhydd-ddaliadau, sy'n golygu bod angen cymeradwyaeth awdurdodau lleol i wneud newidiadau yn yr ased i fod o les i'r gymuned - gan godi cwestiynau am lefel y rheolaeth gymunedol. Roedd yr ymchwil yn dweud bod y rhai y trosglwyddir iddynt yn aml yn teimlo'n rhwystredig gan y broses hon, ac roeddent yn argymell y dylai awdurdodau lleol newid eu hagwedd at CAT mewn ffordd sy'n gosod angen y gymuned yn brif reswm dros drosglwyddo asedau, yn hytrach na lleihau costau o fewn yr awdurdod lleol.

Mae'n werth nodi bod Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn caniatáu i awdurdodau lleol a rhai cyrff cyhoeddus eraill waredu tir am lai na'r ystyriaeth orau[34], h.y., am lai na gwerth y farchnad. Mae hyn fel arfer ar yr amod 'bod yr awdurdod o'r farn y byddai'r gwarediad yn cyfrannu at hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y cyfan neu unrhyw ran o'i ardal, neu'r cyfan neu unrhyw bersonau sy'n preswylio neu'n bresennol yn ei ardal ac nad oedd y tanbrisio yn fwy na £2 filiwn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhedeg y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol[35], cynllun grant cyfalaf sy'n darparu grantiau hyd at £250,000 er mwyn gwella cyfleusterau cymunedol. Mae'n agored i gyrff cymunedol a gwirfoddol, sy'n golygu bod y broses hon yn cael ei harwain gan y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu'r Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (GlAS) yng Nghymru[36] i gefnogi prosiectau mannau gwyrdd i brynu tir a chael yr holl fathau o ganiatâd angenrheidiol i sefydlu a rheoli mannau gwyrdd. Fodd bynnag, nid oes dim hawl statudol i gymunedau yng Nghymru bryd tir neu asedau fel sydd yn yr Alban, ac nid oes hawl cynnig, herio nac adeiladu fel sydd yn Lloegr.

Mae'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol[37] wedi ei lansio yn diweddar hefyd. Gall CASL gyllido hyd at 100% o werth yr eiddo, yn wahanol i fenthyciadau banc traddodiadol. Mae gostyngiad mewn gyfraddau llog ar gael i sefydliadau sydd wedi'u hachredu fel cyflogwyr Cyflog Byw. Ond, mae cyllid wedi'i gapio ar £300,000 ac mae'n fenthyciad yn hytrach na chyllid grant.

Mae'r diffyg hwn o hawliau statudol i gymunedau yng Nghymru yn arbennig o amlwg, nid yn unig oherwydd enw da Cymru fel gwlad â gwerthoedd cymunedol cryf, ond hefyd am fod y dewis i weithredu mesurau a welid yn Lloegr ar gael i Lywodraeth Cymru heb ddeddfwriaeth sylfaenol. Roedd gan Lywodraeth Cymru y dewis i weithredu mesurau Asedau o Werth Cymunedol (ACV) ym Mhennod 3 Rhan 5 o'r Ddeddf Lleoliaeth yng

34 Local Government Act 1972: General Disposal Consent (Wales) 2003.

35 Welsh Government: Community Facilities Programme - Guidance for Grant Applicants

36 Social Farms and Gardens: Community Land Advisory Service Cymru

37 WCVA: New Community Asset Loan Fund Launched

Nghymru. Er mwyn dod i benderfyniad ar y mater hwn sefydlwyd y Comisiwn Sefydliadau Cydweithredol a Chydfuddiannol. Gwelodd y Comisiwn[38] hwn fod gan Gymru gyfle i fynd ymhellach na'r Alban a Lloegr ar fater tir ac asedau, ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried deddfwriaeth i alluogi cymunedau i restru eu hasedau cymunedol a chael yr hawl gyntaf i wrthod dod ag asedau i feddiant y gymuned. Roedd hefyd yn argymell y dylai Cymru fynd ymhellach na'r Alban a Lloegr drwy ystyried bod clybiau chwaraeon yn asedau cymunedol.

Ym mis Hydref 2014 i ymateb i ddarganfyddiadau'r Comisiwn[39], dywedodd y Gweinidog ar y pryd dros Gymunedau a Delio â Thlodi, Lesley Griffiths AoS, nad yw mesurau Asedau o Werth Cymunedol yn galluogi cymunedau i orfodi gwerthu ased.

Dywedodd yn hytrach fod lle i ddatblygu dull mwy addas yng nghyd-destun Cymru a fyddai'n mynd i'r afael â rhai o ddiffygion y trefniadau yn Lloegr. Dywedodd nad oedd yn credu ei bod yn bosibl gweithredu dull newydd cyn yr etholiad nesaf (Mai 2016), ond ei bod yn gobeithio y byddai mwy o eglurder am y ffordd orau ymlaen.

Ym mis Mawth cafwyd diweddariad. Soniai am fwriad i gynhyrchu papur ymgynghorol ym mis Mai 2015 a fyddai'n gosod allan y polisi presennol a'r cyd-destun ymarfer ac yn dadansoddi dewisiadau i fynd â model Cymreig yn ei flaen. Dywedodd hefyd fod Gweithgor Asedau Cymunedol wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Ms Griffith, drwy'r ymgynghori, ei bod am ddatblygu dull cynaliadwy yng Nghymu wedi'i adeiladu ar dystiolaeth ac a fyddai'n helpu grymuso cymunedau, gan ddiogelu asedau sy'n werthfawr i bobl leol ac yn rhan annatod o fywydau cymunedau.

Ym mis Rhagfyr 2015 gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig[40] am ddarganfyddiadau'r Comisiwn, a dywedai fod yr ymgynghoriad wedi gweld cefnogaeth boblogaidd drwy sefydlu cynllun Cymreig a fyddai'n galluogi cymunedau i enwebu tir neu adeiladau i gychwyn proses lle caiff grŵp cymunedol y cyfle a'r amser i gynnig am ased yn ystod cyfnod moratoriwm. Dywedodd y datganiad y gallai'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer sefydlu cynllun ACV Cymreig gael ei baratoi drwy gychwyn Pennod 3, Rhan 5 o'r Ddeddf Lleoliaeth 2011, ac mewn rheoliadau dilynol Cymreig wedyn wedi'u gwneud dan y Ddeddf. Addawodd y Gweinidog y byddai'n parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru i sicrhau bod y dull yn hollol addas ar gyfer y cyd-destun Cymreig. Sylwodd nad yw' Ddeddf Lleoliaeth yn darparu hawl cyntaf i wrthod fel yn yr Alban, a byddai hynny'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd. Dywedodd y byddai angen i unrhyw gynigion ar y sail hon yn y dyfodol gael eu hasesu i sicrhau eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaeth. Wedyn dywedodd y Gweinidog y byddai deddfwriaeth mewn cysylltiad â'r mater hwn, gan gynnwys cychwyn y mesurau perthnasol dan y Ddeddf Lleoliaeth, yn digwydd ar ôl yr etholiad sydd i ddod 2016. Dywedodd nad oedd hi mewn sefyllfa i ymrwymo llywodraeth yn y dyfodol i unrhyw weithredu penodol ond ei bod yn credu bod cefnogaeth ar draws y pleidiau ar y mater hwn.

38 Report of the Welsh Co-operative and Mutuals Commission

39 Welsh Government Written Statement - Assets of Community Value measures contained in the Localism Act 2011

40 Welsh Government Written Statement - Assets of Community Value

Fodd bynnag, ni chafodd y mesurau dan y Ddeddf Lleoliaeth eu gweithredu erioed ar unrhyw ffurf yng Nghymru. Ac ni phasiwyd ychwaith yr hawl cyntaf i wrthod ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, fel sydd mewn grym yn yr Alban a'u hargymell i'w hystyried gan y Comisiwn Sefydliadau Cydweithredol a Chydfuddiannol . Mae gan gymunedau yng Nghymru o hyd lai o hawliau statudol nag yn yr Alban neu Loegr, er gwaethaf y gefnogaeth eang gan ddau gomisiwn am i o leiaf yr un mesurau grymuso cymunedau ag sydd yn Lloegr, a chan gyfeirio at fynd ymhellach nag yn Lloegr ac yn yr Alban.

Yn ystod 2010-2019, cyfnod yn bennaf o bolisi gan Lywodraeth y DG o lymder mewn gwario cyhoeddus, gwelodd UNSAIN Cymru[41] fod 193 o ganolfannau ieuenctid yng Nghymru wedi cau. Yn 2019, dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru[42] fod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cael gostyngiad yn eu cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru o bron £1bn ers 2009-10.

Er gwaethaf ymdrechion i fapio asedau cymunedol yng Nghymru[43], nid oes unrhyw ffordd i wybod faint yw cyfanswm yr asedau cymunedol sydd wedi'u colli yn ystod y gwerthu di-ben-draw yn ystod y cyni dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn, iawn fod diffyg datblygiad gan Gymru mewn mesurau i rymuso cymunedau ar yr adeg dyngedfennol hon wedi arwain at golli nifer o asedau am byth i gymunedau.

Mae'n werth nodi, yn wahanol i Gronfa Tai Gwledig yr Alban a Chronfa Tai Cymunedol Lloegr - sy'n darparu cyllid i'r sector tai a arweinir gan y gymuned - dywedodd rhanddeiliaid yn y sector hwn yng Nghymru wrthym nad oes unrhyw gymhwyster cyfatebol yng Nghymru. Dywedodd y rhanddeiliaid hyn wrthym fod cyllid cyfalaf sy'n bodoli ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru wedi'i neilltuo'n llym ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Teimlwyd bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu sefydliadau cymunedol cofrestredig fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ond eu bod wedi cael cefnogaeth yn Lloegr.

41 Unison Cymru - Shocking picture of austerity cuts to services in Wales revealed by UNISON

42 Wales Governance Centre, Cardiff University - Cut to the bone? An analysis of Local Government finances in Wales, 2009-10 to 2017-18 and the outlook to 2023-24

43 Building Communities Trust et al: Mapping Communities in Wales

# Materion allweddol presennol yng Nghymru

**Llun:** Polly Thomas.



# Materion allweddol presennol yng Nghymru

Wrth baratoi'r adroddiad hwn buom yn sgyrsio â chyrff sydd â diddordeb o bob rhan o Gymru, a dwy sesiwn o drafod polisi o gylch y bwrdd: y naill gyda grwpiau cymunedol a'r llall gyda ffermwyr. Roeddem am glywed gan grwpiau cymunedol am eu profiadau allu cael tir ac asedau yng Nghymru, ac i glywed am brofiadau ffermwyr fel y rhai sy'n darparu llawer iawn o'r sail economaidd ar gyfer celf gwlad Cymru ac sydd o reidrwydd yn fwyaf blaenllaw yn y diwygiadau arfaethedig i rymuso cymunedau o ran tir.

Gwelsom fod grwpiau cymunedol yn unfrydol eu beirniadaeth o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, a'u dicter yn arbennig oherwydd y diffyg cynnydd. Roedd sôn clir am system fympwyol a dryslyd sy'n eu tanseilio ac yn torri calon y rhai dan sylw.

Er gwaethaf ein disgwyliad cychwynnol y byddai'r ddadl yn un o wrthdaro, gwelsom fod y ffermwyr yn agored eu meddyliau ynglŷn â chynigion, gydag amheuaeth gall a deallus am rai o'r mwy radical, fel fel prynu gorfodol. Roedd y ffermwyr y buom yn siarad â nhw yn fwy tebygol o fynegi pryder am eu cymunedau yn fwy nag amdanynt eu hunain, a gwelent eu gwaith nid yn unig fel busnes i wneud elw, ond hefyd fel gwasanaeth cyhoeddus i'r cymunedau gwledig y maent yn sail economaidd iddynt. Cadarnhawyd hyn gan yr enghreifftiau dieithriad bron o'u gwaith cymunedol, drwy eu ffermydd ac fel unigolion yn cyfrannu at eu cymunedau ehangach. Mae'n werth nodi, er bod cyfraniad cymdeithasol y diwydiant hwn i gynnal cefn gwlad yn bwysig, fod eu cyfraniad cymdeithasol hefyd yn gwneud llawer iawn i gryfhau cymunedau sy'n wynebu pwysau anferth o lawer cyfeiriad.

## Diffyg Cynnydd

Y pryder sylfaenol a fynegwyd gan grwpiau cymunedol yng Nghymru am allu cael tir oedd y diffyg cynnydd amlwg. Mae'n werth nodi, er bod mesurau yn yr Alban a Lloegr fel yr hawl i brynu a'r hawl i gynnig yn ffordd i gymunedau brynu tir preifat, yng Nghymru roedd y cymunedau y buom yn siarad â nhw'n ymwneud yn bennaf â gallu cael tir naill ai i'w berchnogi neu i fod yn stiwardiaid arno. Mae'n debyg fod hyn oherwydd y diffyg hawliau i allu cael tir preifat.

P'un a oeddent yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus wrth allu cael tir, roedd y grwpiau cymunedol y buom yn siarad â nhw yn disgrifio'r profiad yn gyfan gwbl negyddol. Dywedodd un grŵp nad oedd gan gyrff cyhoeddus ddim awydd i waredu tir i gymunedau, gan ddweud eu bod wedi wynebu agwedd 'ni yn eich erbyn chi'. Dywedodd grŵp arall, wrth geisio cael darparu tai yng nghefn gwlad Cymru, fod yr oedi a fu yn rhyfeddol, a bod eu grŵp wedi eu trin gyda diffyg parch llwyr. Disgrifiodd y grŵp hwn y trafod am drosglwyddo'r tir fel un o'r rhannau mwyaf poenus yn y broses, a dywedwyd bod elfen perchnogaeth gymunedol y tai yn y pen draw wedi ei lastwreiddio. Dywedodd y grŵp hwn y byddent yn cefnogi polisi cymunedol a allai roi mwy o hawliau i grwpiau cymunedol i atal hyn yn y dyfodol. Cafodd y profiadau hyn eu cadarnhau gan eraill.

Dywedodd grŵp cymunedol a oedd yn ceisio darparu man gwyrdd mewn ardal drefol yng Nghymru fod eu profiad yn heriol ac annymunol oherwydd diffyg proses glir. Dywedwyd wrthynt ar y cychwyn gan yr awdurdod lleol perthnasol y gallai'r gymuned ddefnyddio'r tir, ond ar ôl deg mis cawsant neges e-bost yn dweud wrthynt y byddai'n cael ei werthu ar gyfer datblygiad. Disgrifiwyd hyn gan y grŵp fel torcalon i gymuned sy'n ddifreintiedig mewn sawl ffordd ac a oedd eisoes wedi colli asedau cymunedol fel llyfrgelloedd a mannau gwyrdd, a'i bod yn anodd gwybod sut i ymladd yn ôl yn erbyn y penderfyniad. Disgrifient y diffyg proses glir i allu cael tir fel rhwystr sylweddol, a'r brydles yn rhwystro'r awdurdod lleol am fisoedd wrth i arian grant ddiflannu, er gwaethaf nifer o ymdrechion i gysylltu â'r awdurdod lleol. O ganlyniad i'r diffyg proses hwn, bu cam-gyfathrebu o fewn yr awdurdod lleol dan sylw, a gwahanol adrannau yn methu â chyfathrebu'n dda â'i gilydd a chyngor gwrthgyferbyniol wedyn yn cael ei roi i'r grŵp cymunedol. Er i'r prosiect lwyddo yn y diwedd, nid oedd un adran o fewn yr awdurdod lleol yn gwybod bod y tir wedi ei roi ar brydles, wedi mynd ar y safle ac wedi newid y cloeon.

Dywedodd grŵp cymunedol arall, a oedd wedi ceisio prynu fferm wledig er mwyn ei chynnal i'w defnyddio gan y gymuned, fod eu hawdurdod lleol wedi dangos diffyg hyblygrwydd a diffyg gwybodaeth am berchnogaeth gymunedol.

Roedd un person a fu'n cymryd rhan mewn trafodaeth o gwmpas bwrdd yn dweud bod y broses yn cymryd llawer iawn o waith gan gymunedau a'u bod yn aml yn cystadlu yn erbyn sefydliadau gyda llawer iawn mwy o adnoddau. Disgrifiodd y broses o weithio gyda chyrff cyhoeddus yn rhyfeddol o heriol, yn rhwystredig ac yn cymryd llawer o amser.

Pan gyflwynwyd atebion polisi posibl o'r enghreifftiau yn Lloegr a'r Alban, roedd y rhai a gymerodd ran o gwmpas y bwrdd ar ran grwpiau cymunedol yn mynegi cefnogaeth gyfan gwbl dros yr hawl i brynu fel sydd yn yr Alban.

## Problemau Amseru

Er bod cysylltiad cryf rhwng hyn a'r diffyg cynnydd, mae'n werth nodi materion amseru ar wahân.

Fel y soniwyd, cafodd un grŵp cymunedol arian grant ar y cychwyn ond cael bod diffyg proses glir wedi achosi problemau sylweddol gydag amseru, a'r diffyg dyddiadau cau neu eglurder yn golygu bod arian grant wedi diflannu tro oeddent yn aros. Dywedodd grŵp arall mai eu profiad cychwynnol oedd agwedd gynhennus gan gyrff cyhoeddus, a'r hyn a gredent oedd siarad nes byddai'n rhy hwyr.

Mae'n werth edrych ar y gwrthgyferbyniad yma â Lloegr a'r Alban. Yn Lloegr gall grwpiau cymunedol elwa o foratoriwm i sefydlu endidau cyfreithio, creu cynllun busnes a sicrhau cyllid. Yn yr Alban, gall grwpiau cymunedol elwa o hawl gyntaf i brynu tir ac asedau. Yng Nghymru nid oes mecanwaith gwirioneddol i brynu tir preifat. Mae'n ofynnol iddynt sefydlu endid cyfreithiol, creu cynllun busnes a sicrhau cyllid gan gystadlu yn erbyn gweddill y farchnad - cystadlu yn erbyn endidau sy'n aml â chyllid ac endid cyfreithiol

wedi'u sicrhau wrth fynd i mewn i'r broses. Er gwaethaf canllaw Llywodraeth Cymru ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, nid yw cymunedau yng Nghymru i'w gweld yn elwa o ddull cyson i allu cael tir cyhoeddus drwy ei berchnogi neu fod yn stiwardiaid drosto. Ac fel y soniwyd yn yr adran cyd-destun polisi yn yr adroddiad hwn, ychydig awdurdodau lleol sydd â swyddogion penodol ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

## Materion Ariannu

Dywedodd cynrychiolydd o'r sector ynni cymunedol fod cael eu dal mewn rheolau pwrcasu yn broblem i gymunedau. Yn ei brofiad ef roedd cynghorau'n credu bod angen iddynt gynnig y cyfleoedd yn eang mewn proses gystadleuol. Dywedodd fod awdurdodau lleol yn dal i feddwl fod angen iddynt agor y cyfle'n fwy eang, a'r grŵp cymunedol wedyn yn agored i gystadleuaeth gan y sector preifat a chyrff eraill gyda gwell adnoddau.

## Materion Arbenigedd

Dywedodd un grŵp sydd wedi sefydlu tai cymunedol yn llwyddiannus yng nghefn gwlad Cymru, er bod Llywodraeth Cymru yn dangos eu prosiect fel model o enghraifft, ofnent na fyddai gan gymunedau mwy difreintiedig yr arbenigedd na'r amser i fynd drwy'r broses faith a niwlog sy'n bodoli yng Nghymru.

Dywedodd cynrychiolydd o'r sector ynni cymunedol, er bod nifer o awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus wedi arolygu safleoedd a oedd yn addas ar gyfer ynni adnewyddon ar eu hystadau, nid oedd y rhain yn cael eu datblygu. Mae'n debygol y byddai cofrestr asedau wedi'i llunio yn y ffordd gywir yn caniatáu i grwpiau ynni cymunedol y cyfle i ddatblygu cynigion ar y safleoedd hyn.

## Gwerth Cymdeithasol

Mae gwerth cymdeithasol grwpiau cymunedol yn fater a gododd yn gyson yn ein trafodaethau. Dywedodd un unigolyn sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol yng Nghymru fod pryderon ariannol yn gyson yn cael eu rhoi o flaen budd cymunedol ac amgylcheddol. Cafodd hyn ei ategu'n eang gan grwpiau cymunedol eraill. Dywedodd un grŵp y byddai fframwaith cydnabyddedig ar gyfer cymunedau i ddangos gwerth cymdeithasol wedi bod yn werthfawr iddynt yn ystod eu proses o geisio cael tir.

Roedd y cynrychiolydd o'r sector ynni cymunedol hefyd yn cytuno â hyn, gan ddweud ei fod yn teimlo y dylid gosod rhyw fath o ymrwymiad neu ddyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i edrych ar y ffordd y gallent ddarparu'r budd cymdeithasol neu'r gwerth cymdeithasol mwyaf, a'r broses o dendro wedi'i phwysoli tuag at brosiectau cymunedol dros gynlluniau masnachol.

Dywedodd cynrychiolydd o grŵp cymunedol mawr ei bod yn eithriadol o bwysig i brosiectau yn y dyfodol fod cyfrifiadau o werth cymdeithasol yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau trosglwyddo asedau a thir. Dywedodd yr unigolyn hwn ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gael fframwaith i gyfiawnhau cymryd gwerth cymdeithasol i ystyriaeth yn y broses archwilio. Awgrymwyd y gallai gwerth cymdeithasol gynnwys dal a storio carbon, creu swyddi, gwelliannau bioamrywiaeth, gwelliannau mewn cadwyni cyflenwi a rhagor. Byddai angen i'r broses hon allu cael ei harchwilio'n llwyr ac ni fyddai ond angen newid polisi gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na deddfwriaeth. Nodwyd bod fframwaith Cenedlaethol Themâu, Canlyniadau a Mesurau[44] (TOM) eisoes ar gael ac y gellid ei addasu neu ei ddefnyddio ar gyfer Cymru.

## Cefn Gwlad Cymru

Yn ein sesiwn o gwmpas y bwrdd gyda ffermwyr, gwelsom fod pryderon am gefn gwlad Cymru'n gyffredinol ar flaen ac yng nghanol meddyliau ffermwyr. Dywedodd ffermwr o'r genhedlaeth gyntaf yng Ngwynedd fod ffermwyr eisoes yn arallgyfeirio a bod hyn wedi helpu economïau ffermydd. Dywedodd y ffermwr, yn ei ardal ef, fod y gymuned yn eithriadol o glos ac mai amaethyddiaeth oedd sail y gymuned. Mynegwyd pryderon am gartrefi'n cael eu prynu gan bobl o'r tu allan i'r gymuned gan wthio prisiau i fyny ac erydu natur glos yr ardal. Mynegwyd pryderon dwys hefyd am ail gartrefi'n cael eu prynu gan bobl o'r tu allan i'r gymuned gan ddweud bod hynny'n dinistrio ardaloedd gwledig.

Cafodd y pryderon hyn am erydu cefn gwlad Cymru eu hategu gan eraill. Dywedodd ffermwr o'r wythfed genhedlaeth ger Caernarfon fod ail gartrefi'n pery anawsterau i bobl ifanc, a hynny'n achosi tensiynau. Soniodd y ffermwr hefyd am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg gan ddweud ei bod yn gwneud Cymru'n unigryw a'i bod yn annwyl iddynt.

Dywedodd ffermwr yn Sir Gaerfyrddin nad oedd tafarn na siop yn ei bentref lleol, a bod y bobl yn pryderu'n fawr pan gaewyd yr ysgol leol 20 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, roedd yr ysgol wedi'i phrynu gan y gymuned ac yn dal i gael ei rhedeg fel neuadd bentref leol. Dywedodd y ffermwr hwn eto mai'r broblem fwyaf yn eu cymuned hwy oedd cael tai fforddiadwy yn y pentref lleol.

Dywedodd ffermwr ger y Fenni na fyddai'n synnu os oedd hanner y tai yn ei gwm ef yn cael eu gosod yn ystod gwyliau neu'n ail gartrefi. Dywedodd mai ffermwyr oedd mwyafrif y gymuned a bod eu nifer yn gostwng a'r gymuned yn mynd yn deneuach. Dywedodd ei fod wedi gwahodd y sioe leol i'w fferm ac nad oedd dim pobl ifanc yn dod ymlaen i'w rhedeg. Mynegwyd pryderon fod mwyafrif y pwyllgor nawr ymhell yn eu saithdegau ac nad oedd yn ymddangos y byddai cenhedlaeth newydd yn dod i wneud y gwaith - a'r canlyniad fyddai fod y gymuned yn dirywio ymhellach.

44 Social Value Portal: National TOMs Measurement Framework

## Dyfodiaid Newydd i'r Byd Ffermio

Soniodd un ffermwr mai prin iawn erbyn hyn oedd y ffermydd tenantiaid cyngor. Dywedodd nad oedd gan ffermwyr sydd â phlant nad oes ganddynt ddiddordeb yn y diwydiant, neu sydd heb blant, ddim dewis ond gwerthu'r fferm i fusnesau mwy o faint. Dywedodd y ffermwr hwn y byddai'n fuddiol i'r diwydiant amaethyddol ddatblygu polisi cymunedol a fyddai'n caniatáu i newydd-ddyfodiaid ddefnyddio tir i sicrhau ffermwyr y dyfodol yn yr ardal. Nodwyd pwysigrwydd amaethyddiaeth i ardaloedd gwledig, a phlant ffermwyr yn mynd i ysgolion lleol a ffermwyr yn prynu oddi wrth werthwyr nwyddau amaethyddol lleol, ac yn gwario'u harian yn lleol hefyd. Mynegwyd pryder mai ychydig effeithiau sy'n tarddu o goedwigaeth.

Dywedodd ffermwr y genhedlaeth gyntaf o Wynedd, pe bai heb gael y cyfle a gafodd gan fferm sirol, na fyddai wedi mynd i mewn i'r diwydiant. Iddo ef, mater o degwch i bobl mewn ardaloedd gwledig oedd cael y cyfleoedd hyn.

## Ffermwyr yn y Gymuned

Mae'n bwysig sylwi ar y syniad cryf o wasanaeth cymunedol a ddisgrifiwyd gan fwyafrif y ffermwyr. Yn ogystal â mynegi pryderon am barhad economaidd a chymdeithasol ardaloedd gwledig sydd dan bwysau oddi wrth ail gartrefi a phlannu coed gan bobl o'r tu allan i Gymru, soniai'r ffermwyr y buon yn siarad â nhw eu bod bron yn ddieithriad yn ymwneud yn fawr iawn yn eu cymunedau.

Soniodd ffermwr yr wythfed genhedlaeth ger Caernarfon ei fod wedi gweithio gyda grŵp diddordeb cymunedol i archwilio cyfleoedd ynni adnewyddol, ac wedi mynd â phobl leol o gwmpas y fferm ar ôl trefnu.

Dywedodd ffermwr defaid o Sir Gaerfyrddin, er bod yna ychydig wrthdaro o ran diffyg dealltwriaeth ynglŷn â hawliau mynediad, roedd wedi ymgysylltu â sefydliad sy'n ceisio codi pontydd rhwng ffermwyr, amgylcheddwyr a'r cyhoedd yn ehangach.

Soniodd y ffermwr o Fro Morgannwg ei fod yn cymryd rhan yn y Sul Fferm Cenedlaethol, pan fydd yn agor ei gatiau ac yn gwahodd pobl i ddod i'w fferm am ddim. Fel rheol bydd yn cael rhwng 2,000 a 2,500 o ymwelwyr. Disgrifiodd y cysylltiadau roedd wedi eu datblygu gyda'r Cybiaid, y Sgowtiaid, y Geidiau a grwpiau ffermwyr ifanc drwy'r digwyddiad. Soniodd hefyd ei fod yn ariannu ysgolion i ymweld â'r fferm, oherwydd y diffyg cyllid yn ei ysgol leol. Mae'r ffermwr hwn hefyd yn darparu cyngor gyrfaoedd yn yr ysgol. O ran yr amgylchedd, roedd yn caniatáu mynediad i bum erw ar ei fferm i grŵp amgylcheddol lleol, gyda safleoedd mewn mannau gwahanol, a'u gadael i wneud yr hyn a fynnent â'r rheiny. Dywedodd, os bydd y grŵp hwn yn gofyn i'r ffermwr wneud rhywbeth penodol, ei fod yn cydymffurfio oherwydd ei fod yn cytuno ag ethos y grŵp. Fodd bynnag, roedd yn amheus am drefniadau stiwardiaeth ffurfiol am ei fod yn credu y gallai'r rheiny gyfyngu ei allu i weithio gyda grwpiau y mae'n cytuno â'u hethos.

Soniodd un ffermwr ei fod wedi rhoi tir i bobl leol i ddechrau lleiniau garddio, a hynny wedi cael dechrau cadarnhaol ac yna dirywio o ran eu hansawdd. Dywedodd yn y pen draw fod cabanau, teiars a sbwriel wedi dechrau crynhoi oherwydd diffyg eu defnyddio. Am y rheswm hwn, meddai, roedd yn amheus iawn am bwerau pwrcasu gorfodol ar dir diffaith, fel sydd yn yr Alban.

Roedd enghreifftiau eraill o ymwneud ffermwyr yn eu cymuned yn cynnwys ffermwr ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn gweithio gyda'r clwb ffermwyr ifanc lleol, cefnogi'r Eisteddfod leol, a bod â rhan yn llywodraethiant y coleg lleol. O'n trafodaethau roedd yn amlwg bod y diwydiant amaethyddol nid yn unig yn darparu sail economaidd i gymunedau gwledig, ond hefyd yn wirioneddol yn cryfhau gwytnwch a chydlyniant cymunedau drwy eu gwaith ehangach, boed yn ymwneud yn uniongyrchol â'u busnes neu beidio.

# Atebion Posibl

**Llun:** Polly Thomas.



# Atebion Posibl

Mae'n ymddangos bod diffyg proses amlwg i grwpiau cymunedol allu cael tir cyhoeddus, a phrofiadau grwpiau cymunedol yn amrywio'n sylweddol yn ôl ardal pa awdurdod lleol maent ynddo, ac a ydynt yn delio ag awdurdod lleol neu â chorff cyhoeddus arall. Fodd bynnag, roedd y profiadau i gyd yn negyddol, p'un a oeddent yn llwyddiannus neu beidio i fedru sicrhau perchnogaeth neu stiwardiaeth o'r tir. At hynny, mae'r sefyllfa o rangallu cael tir neu asedau preifat yn waeth byth, a'r diffyg hawliau statudol i gymunedau'n golygu eu bod yn cystadlu'n uniongyrchol yn erbyn y sector preifat gyda gwell adnoddau.

Roedd y grwpiau cymunedol y buon yn siarad â nhw yn unfryd yn galw am weithredu deddfwriaethol i roi i grwpiau cymunedol hawliau statudol i allu cael tir ac asedau. Dywedodd un arbenigwr sy'n gweithio ym maes tai cymunedol fod deddfwriaeth yn hanfodol i'r arwydd roedd yn ei roi. Dywedodd arbenigwr polisi arall fod angen newid deddfwriaeth a newidiadau polisi, a bod y rhain yn gofyn am newid systemataidd sylfaenol yn hytrach na mân newidiadau.

Gwnaed pwynt da gan luniwr polisi ffermio proffesiynol fod y drefn o ran perchnogaeth tir yn yr Alban yn hollol wahanol i Gymru, a Chymru'n meddu ar ffermydd teuluol cymharol fach sy'n aml yn ffermio i fyny at y ffin drefol, a ffermwyr bron yn ddieithriad yn ymwneud â'r gymuned. Dywedodd nad edrych tua'r Alban oedd yr ateb a'i dynwared, gan fod patrymau perchnogaeth tir yn yr Alban yn cynnwys nifer o ystadau mawr â'u perchnogion yn byw ymhell i ffwrdd, ac nad dyna'r sefyllfa yng Nghymru.

Nododd un ffermwr, pe bae'n gwerthu ei asedau, ei fod yn disgwyl y byddai am eu gwerthu am y cynnig uchaf. O ran hawliau cymunedol i gael y gwrthodiad cyntaf, dywedodd fod yna botensial i gyfuno hyn â mecanwaith a chyllid i sefydlu gwerth y farchnad.

Roedd ffermwr arall yn cefnogi'r safbwynt hwn, gan ddweud y byddai rhoi i gymunedau y gwrthodiad cyntaf i brynu tir yn amlwg yn eu hatal rhag rhoi ased ar y farchnad agored.

Mae'n amlwg o'n gwaith ymchwil fod ar grwpiau cymunedol yng Nghymru angen dybryd am fecanweithiau grymuso cryf. Fodd bynnag, mae cymunedau gwledig yng Nghymru yn fregus. Maent eisoes yn delio ag effeithiau erydol ail gartrefi a phrynu tir i blannu coed gan gorfforaethau o'r tu allan i Gymru. Dylai unrhyw weithredu ar y mater hwn ddigwydd dim ond drwy ymgynghori â chymunedau a busnesau gwledig sydd bodoli.

Roedd pryderon sylweddol hefyd gan nifer i ffermwyr am ddyfodol y diwydiant, gyda llai o gyfleoedd i newydd-ddyfodiaid. Mae cefnogaeth i gymunedau sy'n ceisio diogelu ffermydd sirol, o bosibl drwy berchnogaeth neu stiwardiaeth gymunedol, yn haeddu ei ystyried.

Mae rhai rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau cymunedol wedi datgan, mewn rhai amgylchiadau, nad yw trosglwyddo teitl o gorff cyhoeddus i grŵp cymunedol yn gyfreithiol bosibl, na'r canlyniad a ffefrir gan un blaid na'r llall. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall cyd-gynhyrchu cynllun rheoli asedau fod yn ffordd effeithiol o sicrhau bod gwerthoedd cymunedol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Enghraifft o hyn sy'n digwydd yng Nghymru yw'r gymuned yn y Rhondda Uchaf (rhan o Project Skyline), sydd wedi llunio proses gyd-ddylunio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod gwerthoedd cymunedol yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun y goedwig dros y degawd nesaf. Gellid defnyddio cyd-gynhyrchu cynlluniau rheoli asedau yn y dyfodol gan y corff cyhoeddus a'r gymuned i sicrhau y gellir rheoli asedau cyhoeddus nad ydyn nhw'n cael eu trosglwyddo i berchnogaeth gymunedol o hyd mewn ffordd sy'n cyflawni gwerthoedd a gweledigaeth y gymuned.

## Argymhelliad 1:

Dylai Llywodraeth Cymru ddechau gweithio ar Fesur Grymuso Cymunedau sy'n sefydlu cofrestr o asedau cymunedol ac yn rhoi i gymunedau yr hawl gyntaf i wrthod gyda'r asedau hyn pan fwriedir eu gwerthu neu eu trosglwyddo.

Mae'n hafodol i unrhyw hawliau grymuso cymunedau yn y Mesur hwn beidio â pheryglu parhad y diwydiant amaethyddol sy'n sail i'r Gymru wledig. Felly, ni ddylid *ei ystyried heb fecanwaith i sicrhau bod tir ac asedau'n cael eu gwerthu am eu gwerth ar y farchnad. Nid ydym yn argymell mesurau prynu gorfodol fel sydd yn yr Alban* oherwydd y cyd-destun gwahanol yng Nghymru, y ffaith fod cymunedau gwledig yn fregus, a'u pwysigrwydd i'r iaith Gymraeg.

## Argymhelliad 2:

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cronfa Asedau Cymunedol gyda digon o arian, ar sail Cronfa Tir yr Alban sydd mor llwyddiannus ac sy'n dosbarthu grantiau rhwng £5,000 ac £1m. Dylai hyn ymroi i fod yn sail i darpariaethau'r Mesur Grymuso Cymunedau, cefnogi perchnogaeth gymunedol yn ariannol, a sicrhau bod y rhai sydd am werthu yn cael pris teg am eu hasedau.

## Argymhelliad 3:

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu pecyn cymorth wedi'i gydlynu i gynnal cymunedau sy'n ceisio prynu neu brydlesu tir neu asedau. Dylid targedu hyn yn benodol at gymunedau difreintiedig i sicrhau nad yw'r rheiny sydd heb yr adnoddau neu'r amser i ymwneud mor llwyr â'r broses dan anfantais.

### Argymhelliad 4:

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi gwerth cymdeithasol sy’n gymwys i gyrff cyhoeddus sy’n ceisio gwaredu neu brydlesu tir neu asedau. Dylid gallu archwilio hwn a’i gyfathrebu’n glir i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus ac Archwilio Cymru. Gellid defnyddio’r fframwaith TOM Cenedlaethol fel man cychwyn i ddatblygu’r polisi gwerth cymdeithasol hwn.

### Argymhelliad 5:

Mewn sefyllfaoedd lle nad yw trosglwyddo asedau'n bosibl, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi cyrff cyhoeddus i gyd-gynhyrchu, gyda chymunedau fel partneriaid cyfartal, gynlluniau rheoli asedau yn y dyfodol sy'n adlewyrchu gwerthoedd a gweledigaeth gymunedol ond sydd hefyd yn adlewyrchu gofynion cyfreithiol a phroffesiynol rheoli asedau.

# Casgliadau

**Llun:** Polly Thomas.



# Casgliadau

Er bod gan Gymru yr enw o fod yn genedl o gymunedau clos, mae'n ymddangos bod ei chymuned ymhlith y rhai sydd wedi'u grymuso leiaf o holl ynysoedd Prydain.

Ychydig iawn o ffyrdd sydd gan grwpiau cymunedol sy'n ceisio cael perchnogaeth neu stiwardiaeth dros dir neu asedau yn eu hardal. Mae'n ymddangos bod system Cymru o hunan-rymuso – i'r graddau bod unrhyw system yn bodoli o gwbl – yn cael ei gyrru o'r brig i'r bôn. Ac mae ein trafodaethau a'n gwaith ymchwil yn dangos bod cymunedau'n cael eu cefnogi'n bennaf i allu cael asedau dim ond pan fydd awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus wedi penderfynu eu gwaredu, ac i raddau helaeth maent yn methu â chael tir ac asedau yn y sector preifat.

Mae'n ymddangos mai ychydig allu sydd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol i gefnogi Trosglwyddo Asedau Cymunedol sy'n golygu, hyd yn oed ar adegau prin pan fydd holi am dir ac asedau cyhoeddus i'w gwaredu gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus, nad oes proses gyson, ac ychydig hawliau sydd gan gymunedau i sicrhau telerau ffafriol. Mae hyn i'w weld yn achosi i gymunedau deimlo'n rhwystredig a digalonni'n llwyr.

Yn y cyfamser, rydym wedi clywed yn uniongyrchol gan gymunedau gwledig am y sefyllfa fregus sy'n eu hwynebu hwy. Mae pryderon eang am ail gartrefi a ffermydd llwyr yn cael eu prynu er mwyn plannu coed, gan wneud cymunedau'n fwy bregus. Dylai profiad Cymru o weld cymunedau glofaol yn cael eu sylfeini economaidd yn cael eu dwyn oddi arnynt yn ystod yr 20fed ganrif fod yn sail i agweddau at y Gymru wledig a'r sector amaethyddol, yn enwedig o gofio'u cysylltiad agos â'r iaith Gymraeg. Dylai mesurau i rymuso cymunedau geisio cefnogi cymunedau gwledig a'u heconomïau, nid eu peryglu.

Mae'r adroddiad trosolwg hwn wedi nodi angen amlwg am fesurau grymuso cymunedol yng Nghymru, wedi'u teilwra yn ôl amgylchiadau unigryw Cymru, a dysgu o brofiad gwledydd eraill y DG yn hytrach na dim ond eu dyblygu. Os gwneir hyn, bydd gwobr glir o fewn cyrraedd o gymunedau yng Nghymru sydd wedi'u hatgyfnerthu a'u grymuso.

iwa